

CYFARFOD	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
DYDDIAD	28 Mehefin 2018
TEITL	Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none">• Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2017/18, a• Ffurflen datganiadau cyfrifon, wedi'i ardystio, ond yn amodol ar archwiliad
AWDUR	Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid
GWEITHREDIAD	Derbyn a Cymeradwyo'r Cyfrifon

1. GOFYNION ADRODD HARBYRAU

- 1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbwr.
- 1.2 Ystyrir Harbyrau Gwynedd, oherwydd trosiant is na £2.5m, i fod yn gorff llywodraeth leol llai o faint yn unol â'r diffiniad yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.
- 1.3 Ar gyfer "cyrff llywodraeth leol llai o faint", mae cwblhau ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cwrdd â'r gofynion statudol. Bydd yn destun archwiliad ar wahân, ond nid oes rhaid cynhyrchu datganiadau ariannol statudol llawn (sy'n cydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol "IFRS").

2. CYFRIFON 2017/18

- 2.1 Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2017/18 yma fel Atodiad A ar ffurf adroddiad "alldro" syml. Gwelir fod yr harbyrau wedi tanwario (£27,190) gyda'i incwm yn dangos diffyg o £16,830 yn erbyn targed o £192,950. Noder fod y targed wedi ei ostwng £50,000 yn 2017/18 oherwydd y gostyngiad parhaol yn y gofyn am angorfeydd.
- 2.2 Yn Atodiad B, cyflwynir y ffurflen datganiadau cyfrifon am 2017/18, wedi'i chwblhau a'i hardystio cyn yr archwiliad gan Dafydd L Edwards, y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer yr Harbyrau.

- 2.3 Bydd y cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad buan gan Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen newidiadau yn dilyn archwiliad, yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i gyfarfod mis Medi o'r Pwyllgor.
- 2.4 Ar ôl archwiliad Deloitte ac unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio'r ffurflen cyn 30 Medi 2018.
- 2.5 Mae Atodiad A yn dangos y cyfrifon refeniw yn unig tra bod y datganiadau cyfrifyddu yn Atodiad B yn cynnwys refeniw a chyfalaf.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1 **Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio dderbyn a chymeradwyo'r wybodaeth sydd yn yr atodiadau, sef ;–**
- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2017/18 – Atodiad A
 - Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2018, yn Amodol ar Archwiliad – Atodiad B